Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Griffith Jones

Heol Yr Osaf
Sanclêr
SA33 4BT

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Griffith Jones

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Griffith Jones |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 2/3: Ysgol cyfrwng Cymraeg / Ysgol dwy iaith |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | dd/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 297 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 231 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 40 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 10.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 27.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2008 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/03/2020 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn gosod cyfeiriad clir sy'n seiliedig ar werthoedd cytûn a phwrpasol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion, ac mae bob amser yn anelu at sicrhau bod yr ysgol yn gwella.

Mae arwyddair yr ysgol, "Dysgu gyda'n gilydd", yn amlwg yn y ffordd y mae disgyblion yn cydweithio ac yn cefnogi ei gilydd. Mae bron bob un o'r disgyblion yn dweud eu bod yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo'u bod yn ddiogel yno.

Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ysgogol, sy'n datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn. Mae'r cwricwlwm yn eang ac yn berthnasol, gyda ffocws cryf ar yr ardal leol.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol, gan gynnwys holi disgyblion yn bwrpasol, ac maent yn cynllunio tasgau sy'n eu hysgogi'n dda. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn rhoi cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, ac mae llawer yn dibynnu gormod ar arweiniad oedolion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gryf. Mae'r ysgol yn adnabod eu hanghenion yn gynnar ac yn darparu rhaglenni priodol i'w cefnogi. Mae cydweithio effeithiol rhwng athrawon a chynorthwywyr dysgu yn sicrhau darpariaeth gyson i'r disgyblion hyn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn effeithiol, gan gynnwys eu hymwybyddiaeth foesol, gymdeithasol a diwylliannol. Mae cyfleoedd arwain, fel ysgwyddo cyfrifoldebau fel aelod o'r cyngor ysgol, yn datblygu hyder a llais disgyblion yn llwyddiannus iawn.

Mae llywodraethwyr yn deall eu rôl yn dda. Maent yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n gyfrifol a bod yr ysgol yn lle diogel. Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gadarn ac yn arwain at welliannau parhaus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Parhau i ddatblygu medrau dysgu annibynnol disgyblion.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae arwyddair yr ysgol, sef: 'Dysgu gyda'n gilydd', yn nodweddu'r holl agweddau o waith yr ysgol. Mae staff yn ymroi'n llwyr i annog a chefnogi disgyblion i feithrin perthnasoedd cadarnhaol a pharchu ei gilydd. Mae hon yn gryfder amlwg sydd, yn ei dro, yn hybu ymddygiad da'r disgyblion a'r gofal sydd ganddynt am ei gilydd wrth eu gwaith a'u chwarae. Mae bron bob un o'r disgyblion yn hapus yn dod i'r ysgol ac yn teimlo'u bod yn ddiogel ac yn cael eu parchu a'u trin yn deg.

Mae uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gadarn sy'n gosod pwyslais clir ar werthoedd cytûn. Mae'r gwerthoedd hyn yn glir ac yn seiliedig ar egwyddorion fel darparu amgylchedd hapus, gofalgar a chynhwysol sy'n dathlu ymdrech a llwyddiant pob unigolyn ac yn blaenoriaethu lles meddyliol, emosiynol a chorfforol disgyblion. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono ef ei hun, y staff a'r disgyblion, ac mae wedi ymrwymo'n llawn i gynnal diwylliant o welliant parhaus er mwyn gwneud yr ysgol yn hafan effeithiol.

Un o nodweddion cryf eraill yr ysgol yw'r ffordd mae athrawon yn cefnogi datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion yn drefnus ar draws ystod o gyd-destunau diddorol. Maent yn olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf, gan sicrhau bod ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o anghenion bob un a'r cynnydd  maent yn ei wneud. Mae hyn yn cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae'r cwricwlwm yn ddiddorol, yn eang, ac yn cynnwys syniadau'r disgyblion a'r rhieni am yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Rhoddir sylw cyson i'r ardal leol fel sbardun, sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion o bob oed ddealltwriaeth gadarn o'u cynefin ac o hanes a threftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol eu hardal leol a Chymru.

### Ciplun: Defnyddio cynefin y disgyblion i ysgogi'r dysgu

Mae'r ysgol yn defnyddio cynefin y disgyblion yn effeithiol fel ysgogiad i'w tasgau. Er enghraifft, wedi archwilio hanes a dylanwad Merched Beca a Griffith Jones, Llanddowror, mae disgyblion yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o'u hunaniaeth a'u treftadaeth. Mae hyn yn eu hysbrydoli i ysgrifennu darnau estynedig o safon uchel, sy'n arddangos dyfnder, aeddfedrwydd, empathi ac ymdeimlad clir o bwrpas ar draws ystod o ffurfiau.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ac maent yn darparu tasgau sy’n ddiddorol ac sy’n sbarduno disgyblion i ymglymu’n llwyddiannus â’u dysgu. Maent yn defnyddio arferion addysgu bwriadus, sy’n galluogi disgyblion i ddeall gofynion eu gwaith a gwneud cynnydd o fewn sesiynau dysgu. Maent yn defnyddio dulliau holi effeithiol sy’n annog disgyblion i adalw eu dysgu blaenorol, cadarnhau eu dealltwriaeth a llywio cyfeiriad y dysgu yn llwyddiannus. Mae’r rhan fwyaf yn cefnogi disgyblion i adnabod eu cryfderau a’r hyn sydd ei angen  i wella’u gwaith. Er enghraifft, yn y sesiwn wythnosol Ymateb i Adborth, mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i sylwadau’r athrawon ac yn gwella’u gwaith yn fwriadus. Er bod athrawon yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, cyfyng yw’r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol yn gyson ac mewn amrywiol gyd-destunau. O ganlyniad, mae llawer yn dibynnu gormod ar arweiniad gan oedolion.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae staff yn cydlynu cymorth buddiol i’r disgyblion hyn, gan weithio’n gynhyrchiol a phwrpasol mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo hynny’n briodol. Mae’r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn dda ac yn gynnar, gan ddarparu rhaglenni cefnogi penodol iddynt, lle bo angen. Mae athrawon yn cydweithio’n effeithiol â’r cynorthwywyr dysgu sy’n arwain y rhaglenni hyn, mewn grwpiau neu’n  unigol, er mwyn deall yn union yr hyn maent wedi ei gyflwyno i’r disgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i barhau â’r un ffocws pan fydd y disgyblion yn dychwelyd i’w dosbarth arferol. Mae hyn yn helpu’r disgyblion hyn i fod yn hyderus ac i wneud cynnydd cyson.

Mae staff yn cefnogi ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Trwy ddilyn themâu fel ‘tegwch’ a ‘hawliau’, mae disgyblion yn datblygu meddylfryd cadarnhaol at gydweithio a phwysigrwydd ystyried safbwyntiau eraill yn barhaus.

Mae staff yn canfod barn disgyblion yn gyson, nid yn unig mewn perthynas â’r hyn maent am ei ddysgu, ond hefyd ar faterion llai ffurfiol fel dewis pa drac cerddoriaeth i’w chwarae yn y cyntedd. Maent hefyd yn datblygu medrau arwain disgyblion yn hynod effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd buddiol iddynt ymgymryd â chyfrifoldebau fel cynllunio, trefnu a darparu gweithgareddau allgyrsiol i’w cyfoedion. Yn ogystal, mae’r cyngor ysgol yn gweithio’n gydwybodol i wneud penderfyniadau ynglŷn â gwariant.

### Ciplun: Datblygu medrau arwain a dyfeisgarwch disgyblion

Mae staff yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldebau ac i feithrin eu medrau arwain a’u dyfeisgarwch mewn sefyllfaoedd ‘go iawn’. Yn ddiweddar, mae aelodau'r cyngor ysgol wedi ystyried barn eu cyfoedion a chytuno i brynu adnoddau ar gyfer yr ardaloedd tu allan i wella’u lles. Oherwydd bod y gost y tu hwnt i adnoddau’r cyngor, bu angen iddynt

gydweithio’n agos â'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Ffrindiau i sicrhau cyllid ychwanegol.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o’u rolau a’u cyfrifoldebau i sicrhau diwylliant cadarn o ddiogelu. Trwy gydweithio â’r pennaeth, maent yn rheoli adnoddau’r ysgol yn gydwybodol i sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel a chymorth effeithiol ar gyfer lles disgyblion a staff. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau’r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu’n rheolaidd yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn gwerthuso cryfderau’r ysgol a’r meysydd sydd angen eu gwella yn drylwyr. Mae’r prosesau gwella yn synhwyrol, yn amserol, ac yn cynnwys blaenoriaethau addas, sy’n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd, safonau a lles disgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn mynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu llythrennedd disgyblion a diwallu eu hanghenion lles yn fwriadus.

Mae arweinwyr yn ystyried baich gwaith a lles staff yn gyson ac yn eu cefnogi i fynd i’r afael â’r hyn sydd ei angen arnynt i gyflawni eu gwaith. Maent yn cynllunio’n effeithiol i sicrhau olyniaeth yn y staff. Mae hyn eto yn un o gryfderau’r ysgol. Mae’r cyfleoedd dysgu proffesiynol perthnasol ac effeithiol a gaiff y staff yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu a lles disgyblion. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi cydweithio ag ysgolion cyfagos i gysoni’r ddarpariaeth ar gyfer addysgu dulliau cyfrifo mewn mathemateg a rhifedd.

Trwy gyd-drafod bwriadus ymysg y staff a thrwy gydweithio’n effeithiol â’r sector uwchradd, caiff y disgyblion eu paratoi’n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  03/08/2026